# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL | | VOLUNTARY SECTOR LIAISON COMMITTEE |
| DYDD IAU, 9 GORFFENNAF 2015 am 2.00 o'r gloch | | THURSDAY, 9 JULY 2015 at 2.00 pm |
| NEUADD Y PENTREF, RHOSNEIGR | | VILLAGE HALL, RHOSNEIGR |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Cynghorwyr/Councillors Jim Evans, Kenneth P Hughes, Alun Mummery, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams

**SECTOR GWIRFODDOL / VOLUNTARY SECTOR**

Islwyn Humphreys (Samariaid/Samaritans)
Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn)
Aled Roberts (TARAN)
Eleri Lloyd Jones (Age Cymru)
Mrs Margaret Roberts (Merched y Wawr)

**IECHYD / HEALTH**

Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Partneriaeth Cymunedol, BIPBC/Assistant Director of Community Development, BCUHB

**R H A G L E N**

1 **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.

2 **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

4 **MATERION YN CODI O'R COFNODION – 16 IONAWR, 2015** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion drafft y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2015.

5 **RHAGLEN WELLA YNYS MON YN Y TRYDYDD SECTOR** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn diweddariad yn erbyn y Rhaglen Waith.

**a) Adolygiad o'r Trydydd Sector - Adroddiad Terfynol**

Derbyn diweddariad gan y Cyfarwyddwr Cymuned gan gyfeirio'n benodol at (t 5 & 6): - **ADRODDIAD I'W RANNU YN Y CYFARFOD**

1. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.
2. Ystyried newid enw Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn Pwyllgor Cyswllt y Trydydd Sector.
3. Enwebu Aelod Arweiniol ar gyfer y Trydydd Sector.
4. Adolygu'r Compact rhwng CSYM a'r Trydydd Sector.

**b) Côd Ymddygiad – sylwadau ar yr Adolygiad**

Derbyn diweddariad gan y Cyfarwyddwr Cymuned / Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 Dros Dro.

**c) Compact**

Derbyn diweddariad gan y Cyfarwyddwr Cymuned / Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Dros Dro.

6 **RHAGLEN ARIANNOL Y CYNGOR 2016/17** (Tudalennau 13 - 16)

Derbyn diweddariad gan Arweinydd y Cyngor / Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Dros Dro.

**7 TREFNIADAU CAFFAEL Y CYNGOR**

Derbyn diweddariad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Dros Dro/Swyddog Caffael.

**8 LLEISIAU LLEOL – DIWEDDARIAD – MEDRWN MÔN**

Derbyn diweddariad ar weithgareddau'r prosiect.

**9 YSTYRIAETH ARFER ORAU – UPM – MEDRWN MÔN**

Derbyn diweddariad gan y Prif Swyddog, Medrwn Môn.

**10 DEDDF CYMDEITHASOL A LLESIANT**

Derbyn diweddariad gan y Cyfarwyddwr Cymuned.

**11 STRATEGAETH TRYDYDD SECTOR BIPBC**

Derbyn diweddariad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygiad Cymunedol, BIPBC.

**12 YMGYNGHORIAD "TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL YNG NGHYMRU"**

Derbyn diweddariad ar yr Ymgynghoriad.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alun Mummery (CSYM) (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Leol**<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Alwyn Rowlands ac Ieuan Williams<br><br>**Sector Gwirfoddol**<br><br>Mr John R Jones (Prif Swyddog, Medrwn Môn)<br>Delyth Owen (Gwneud y Cysylltiadau/Medrwn Môn)<br>Ms Lyndsey Williams (Lleisiau Lleol/Medrwn Môn)<br>Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn)<br>Eleri Jones (Age Cymru – Gwynedd a Môn)<br>Mr Aled Roberts (TARAN) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Gwen Carrington (Cyfarwyddwraig Cymuned – CSYM)<br>Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro)<br>Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Kenneth P Hughes<br>Mr Islwyn Humphreys (Y Samariaid) (Is-Gadeirydd)<br>Mrs Margaret Roberts (Llywydd Merched y Wawr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Clare Klimazewski (Woodwards Accounting and Consulting Ltd) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2014.

Materion yn codi o’r cofnodion:-

Dywedodd y Prif Swyddog Medrwn Môn bod Aled Roberts wedi cyflwyno ymddiheuriad yn y cyfarfod diwethaf ac nad oedd hynny wedi ei gynnwys yn y cofnodion.

Eitem 9 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod gwaith mewn llaw i sefydlu Bwrdd Darparu ar gyfer Ynys Môn, a bod y cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd wedi ei drefnu i'w gynnal ym mis Chwefror 2015.

**3 POLISI YMGYSYLLTU**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned at Fframwaith Ymgysylltiad Cymunedol ac Ymgynghori'r Cyngor sydd wedi ei ddatblygu gyda chymorth Medrwn Môn. Roedd y fframwaith yn seiliedig i raddau helaeth ar y model ar gyfer ymgysylltu ag oedolion hyn yn ward Seiriol. Cyfeiriwyd hefyd at y trefniadau llywodraethu oedd yn sylfaenu'r model, oedd yn cynnwys sefydlu Cyd Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori rhwng y Cyngor a Medrwn Môn i fod a throsolwg o drefniadau ymgysylltu ar draws gwasanaethau ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau. Ymhellach i hyn byddai Gweithgor Ymgysylltu ac Ymgynghori'n cael ei sefydlu rhwng y Cyngor a Medrwn Môn er mwyn cefnogi'r Bwrdd a hefyd i gyd-gysylltu gweithgareddau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**4 CÔD CYLLIDO**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned at yr adolygiad o'r Côd Ymarfer Cyllido fel rhan o'r Cytundeb Compact a chyflwynodd adroddiad yn manylu ar gynnydd gyda threfniadau cyllido'r Trydydd Sector ar draws y Cyngor. Bwriad yr adolygiad oedd darparu eglurder ynglŷn â gwasanaethau a gomisiynwyd gan y Trydydd Sector, dyraniad y Cyngor o gyllid grant i'r Trydydd Sector, trefniadau llywodraethu i fonitro perthynas y Cyngor gyda'r Trydydd Sector ac i argymell gwelliannau i arferion yn y dyfodol. Roedd y gwaith wedi nodi'r buddsoddiad sylweddol o tua £6,850,000 a ddarparwyd i'r Trydydd Sector o gronfeydd y Cyngor yn 2014/15.

Amlygodd Medrwn Môn y pwysigrwydd o sicrhau bod y trefniadau comisiynu yn ddigon clir a hefyd y cyfleon i'r sector wneud bid am gyllid. Gofynnodd Medrwn Môn hefyd i'r Cyngor symud ymlaen mor fuan ag oedd yn bosibl i weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad. Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi sylw i faterion o'r fath mor fuan â phosibl gan sicrhau y byddai hyn yn cael ei gynnwys ar y Flaenraglen Waith.

**5 CYLLIDEB Y CYNGOR 2015/16**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor amlinelliad o gyd-destun a chefndir y cynigion yng Nghyllideb 2015/16. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynigion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd i gyfarfod â'r bwlch cyllidebol o tua £4 miliwn yn 2015/16.

Rhagwelir y bydd y bwlch cyllido yn cyfateb i oddeutu £15,000,000 dros y tair mlynedd nesaf.

Cyfeiriodd yr Arweinydd wedyn at y cynnydd arfaethedig o 5% yn y Dreth Gyngor i gyfarfod â’r bwlch cyllidebol a’r rhestr o arbedion effeithlonrwydd o dan y gwahanol benawdau fel ag yr oeddent wedi eu rhoi ymlaen gan y gwasanaethau i ymgynghori arnynt.

Roedd y Cyngor yn cydnabod yr angen i ystyried goblygiadau’r cynigion i leihau cyllid y Trydydd Sector gan 5% ac y byddai yn cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Nododd Prif Swyddog Medrwn Môn bod angen cael trafodaeth lawn gyda’r Cyngor ar unrhyw gynigion oedd yn cael effaith gymunedol ehangach, a dywedodd y byddai’r Trydydd Sector yn ymateb yn ffurfiol i’r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD disgwyl am yr ymateb ffurfiol gan Medrwn Môn.**

## 6 RHAGLEN RANBARTHOL A’R TRYDYDD SECTOR

Cafwyd diweddariad gan Brif Swyddog Medrwn Môn ar y cyd-destun rhanbarthol mewn perthynas â strwythur y Trydydd Sector yn y dyfodol a’r gostyngiad tebygol yn y nifer o CVCs. Cyfeiriodd hefyd at ohebiaeth gan y Gweinidog Cymunedau a Thaclo Tlodi, i gael gweld y gwaith a wnaed yn Ward Seiriol i hyrwyddo cydgysylltiad lleol fel rhan o’r prosiect Lleisiau Lleol.

**PENDERFYNWYD nodi’r wybodaeth.**

## 7 LLEISIAU LLEOL

Roedd yr eitem wedi cael ei drafod o dan 3 uchod.

## 8 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Chwefror i Fedi 2015 fel oedd wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith ar 12 Ionawr 2015.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chylchu i Medrwn Môn yn fisol er mwyn diweddaru’r Sector ar faterion fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgorau Sgriwtini.

Cyfeiriwyd hefyd at gyfarfod ar y cyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned a’r Trydydd Sector ar 18 Rhagfyr 2014, fel rhan o sesiwn briffio i godi ymwybyddiaeth a chyfleon i ychwanegu gwerth i waith y Pwyllgorau Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9 Y CYFARFOD NESAF

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 2.00 pm ar 9 Gorffennaf 2015 yn Neuadd y Pentref, Rhosneigr.

Mewn paratoad ar gyfer siapio gwaith y Pwyllgor, argymhellodd y Cyfarwyddwr Cymuned y dylid cynnal gweithdy i hwyluso trafodaeth ar feysydd sydd angen cael sylw gan y Cyngor a Medrwn Môn.

**Cynghorydd Alun Mummery**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol

## CYLCH GORCHWYL

**1. Nodau**

Pwrpas y Pwyllgor Cyswllt yw rhoi strwythur a ffocws i'r berthynas rhwng yr awdurdod lleol, y GIG a'r trydydd sector yn Ynys Môn. Bydd y Pwyllgor yn:

1.1 Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu'r Compact
1.2 Cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Compact sy'n nodi amcanion a thargedau
1.3 Monitro ac adolygu'r Cynllun Gweithredu bob blwyddyn
1.4 Sicrhau bod y Codau Ymarfer a nodir yn y Compact yn cael eu datblygu
1.5 Sicrhau bod y Codau Ymarfer yn cael eu gweithredu a monitro eu heffeithiolrwydd
1.6 Darparu fforwm ar gyfer ymchwilio i faterion o bryder cyd-rhwng y naill a'r llall
1.7 Adrodd ar gynnydd i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, i'r trydydd sector trwy Medrwn Môn ac i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol
1.8 Adrodd i'r cyrff statudol lleol sy'n atebol ac i Medrwn Môn trwy gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd

**2. Aelodaeth**

**CSYM**
5
**GIG**
1
**Trydydd Sector**
5 o gynrychiolwyr etholedig

**Sylwedydd**
Cynrychiolydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

**Dirprwyon**
Caniateir dirprwyon gyda chytundeb y Cadeirydd

**3. Cworwm**

Y cworwm yw o leiaf ddau o bobl o bob un o'r tri chorff sy'n rhan o'r Bwrdd. Os nad oes cworwm ar gyfer cyfarfod caiff ei ail-gynnal cyn pen 28 diwrnod. Oni fydd cworwm yn y cyfarfod hwnnw 'chwaith byddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen fel pe bai ganddo gworwm.

**4. Datganiadau o Ddiddordeb**

Rhaid i bob aelod o'r Bwrdd ddatgan unrhyw ddiddordeb sy'n ymwneud ag eitemau penodol ar y rhaglen a gadael y cyfarfod pan fo'r eitemau hynny'n cael sylw

5. **Cadeiryddiaeth ac Ysgrifenyddiaeth**

Bydd Cadeiryddiaeth y Bwrdd Compact yn newid bob blwyddyn. Bydd un aelod o'r tri chorff a gynrychiolir ar y Bwrdd yn cadeirio yn eu tro.

Gwasanaethir y Bwrdd ar y cyd gan swyddogion Medrwn Môn, y GIG a CSYM. Medrwn Môn fydd yn gyfrifol am wasanaethu a chefnogi cynrychiolwyr y trydydd sector.

6. **Amlder Cyfarfodydd**

Bydd y Bwrdd yn penderfynu amlder ei gyfarfodydd ond fel arfer bydd y Grŵp yn cwrdd o leiaf 4 gwaith bob blwyddyn.

7. **Cyfethol**

Gall y bwrdd gyfethol aelodau fel y gwêl yn ddoeth. Rhaid cael cytundeb llawn aelodau'r Bwrdd ar gyfer aelodau cyfetholedig o'r fath.

8. **Adolygiad**

Adolygir cylch gorchwyl ac aelodaeth y Bwrdd bob blwyddyn neu'n amlach os bydd angen.

**ATODIAD**

**Rhestr o Aelodau**

**CSYM**
**GIG**
**Trydydd Sector**

# Compact Ynys Môn




Cytundeb Partneriaeth rhwng

Cyngor Sir Ynys Môn a'r Trydydd

Sector yn Ynys Môn

Hewlett-Packard Company

# Rhagair

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) am y cyfnod 2013-17 yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer 'Ynys Môn Newydd'; ar gyfer 'Ein Hynys, Ein Dyfodol'[i]. "Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw y byddwn, erbyn 2017, yn gyngor sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol ac yn edrych tuag allan, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a'n partneriaethau a hynny er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon o ansawdd da a werthfawrogir yn fawr gan ein dinasyddion".[ii]

Gellir cwrdd ag anghenion a gobeithion pobl os bydd sectorau'n fodlon adeiladu partneriaethau cryf, iach ac egnïol i wella gwasanaethau a gwireddu'r weledigaeth yn y cynllun ar gyfer Ynys Môn.  Y compact hwn yw ein hymrwymiad fel partneriaeth rhwng y trydydd sector a CSYM i weithio'n dda gyda'n gilydd i wella canlyniadau ar gyfer Ynys Môn.

Mae'r Compact yn disodli ac yn adeiladu ar y Compactau blaenorol rhwng y Trydydd Sector a Chyngor Sir Ynys Môn.  Mae hefyd yn ategu'r Compact rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector ar draws Gogledd Cymru a'r Compact rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Trosedd.

Mae'r egwyddorion Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyllido'r Trydydd Sector dyddiedig Ionawr 2014 yn hollbwysig i'n hymagwedd tuag at weithio mewn partneriaeth ac fe'u hadlewyrchir yn y Compact hwn a'n Côd Ymarfer ar Gyllido'r Trydydd Sector (2015).  Anogir yr holl bartneriaid i gefnogi egwyddorion ac arferion y Compact ac unrhyw godau ymarfer cysylltiedig.  Mae'r Compact wedi ei arwyddo hefyd gan Medrwn Môn, sef y Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Ynys Môn.  Medrwn Môn yw'r sefydliad ymbarél sy'n cefnogi, hyrwyddo a chynghori sefydliadau trydydd sector.  Pleser o'r mwyaf yw cael cyflwyno'r Compact Ynys Môn newydd. Ei nod yw ein cynorthwyo i adeiladu ar y perthnasau gweithio cyfredol a gwella ein gwaith partneriaeth er budd Ynys Môn.

Llofnod:

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd Medrwn Môn** | **Arweinydd CSYM** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Logos go here

## Rhagair

Cytundeb partneriaeth rhwng y trydydd sector a'r awdurdod lleol yn Ynys Môn yw Compact Ynys Môn. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu nodau ac amcanion cyffredin, parch rhwng y naill ochr a'r llall a dealltwriaeth er mwyn cynorthwyo'r sectorau cyhoeddus a phartneriaid trydydd sector i wella ansawdd bywyd i bobl Ynys Môn. Rydym yn cydnabod y gallwn gyflawni mwy ar gyfer pobl a chymunedau Môn trwy gydweithio, yn arbennig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol.

Mae'r Compact hwn a'n partneriaeth yn chwarae rôl hollbwysig o ran cwrdd â blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor o fod yn awdurdod sy'n canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned. Mae ein partneriaid yn y trydydd sector yn tueddu i fod mewn cysylltiad agosach gyda'r gymuned ac maent yn chwarae rôl allweddol i hyrwyddo cyfranogiad dinasyddion, gan ymgysylltu gyda nhw wrth ddylunio, darparu a gwella'r holl wasanaethau cyhoeddus.

Bwriedir i'r Compact lwyio'r broses o weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae gan Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae ar gyfer gweithredu Compact Ynys Môn.

Mae'r Polisi Gwirfoddoli a Chôd Ymarfer Ynys Môn ar Gyllido'r Trydydd Sector yn mynd law yn llaw â'r Compact hwn. Gellir datblygu codau ymarfer a pholisïau eraill fel y maent yn berthnasol i adeiladu ar y gwaith partneriaeth cadarnhaol sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyllido'r Trydydd Sector (2014)[iii] yn cynnwys nifer o egwyddorion cyffredinol.

Mae'r egwyddorion hyn fel y crynhoir nhw isod yn sylfaen bwysig ar gyfer Compact a Chôd Ymarfer Ynys Môn:-

### Egwyddorion Cyllido Llywodraeth Cymru ac Ynys Môn

- Rhaid i unrhyw drefniant cyllido gydymffurfio ag amcanion polisi strategol y Cyngor, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Llywodraeth Cymru fel y maent yn berthnasol i'r ffrwd gyllido;
- Mae'r Cyngor yn parchu ac yn gwerthfawrogi annibyniaeth y sector;
- Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd deialog gynnar ac adeiladol gyda'r trydydd sector a bydd yn ceisio bod yn dryloyw ac yn wrthrychol yn ei waith gyda'r Trydydd Sector. Yr un modd, bydd y trydydd sector yn ymgysylltu mewn deialog gynnar ar y holl faterion sy'n effeithio'r cyngor o ran ei drefniadau trydydd sector gan gynnwys gofyn am ganiatâd pan yn defnyddio cyllid y cyngor ar gyfer cyllid cyfatebol;
- Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud penderfyniadau amserol ynghylch trefniadau cyllido a chomisiynu yn unol â chod ymarfer Llywodraeth Cymru a'r rheoliadau Caffael Cyhoeddus fel sy'n berthnasol. Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i sefydliadau trydydd sector am gyllid yn y dyfodol o leiaf dri mis cyn i'r cytundeb cyllido cyfredol ddod i ben;
- Sicrwydd ynghylch cyllid - mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo trefniadau cyllido tymor hwy lle bynnag y mae hynny'n bosibl ac yn briodol. Mae'r cyngor yn cydnabod manteision trefniadau cyllido tymor hwy a bydd yn gweithredu trefniadau cyllido tymor hwy lle gall wneud hynny ac yn amodol ar yr adnoddau cyllido digonol;
- Lefelau cyllido teg – o ran trefniadau cyllido'r Trydydd Sector, bydd taliadau'n cael eu gwneud yn unol â chyfraddau chwyddiant lle mae hynny'n fforddiadwy. Fodd bynnag, ar adeg o bwysau ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried y byddai'n rhesymol disgwyl i'r sefydliadau trydydd sector hefyd fod yn ddarbodus. Er mwyn helpu i sicrhau tegwch, bydd y Cyngor yn anelu at fod mor gyson ag sy'n bosibl o ran chwyddiant / arbedion effeithlonrwydd. Bydd anghenion penodol sectorau arbenigol hefyd yn cael eu cymryd i

ystyriaeth i'r graddau y mae hynny'n bosibl;

- Gwerth am Arian – disgwylir i sefydliadau trydydd sector sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd ystyriaethau gwerth am arian hefyd yn berthnasol i ddyrannu grantiau ac i gaffael;

- Adfer costau llawn - bydd cyllid trydydd sector ar gyfer prosiect neu wasanaeth penodol yn cynnwys y gost lawn o redeg prosiect neu wasanaeth gan gynnwys cyfran o'r gorbenion ar yr amod fod adnoddau cyllido ar gael. Nid yw hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae'r Cyngor yn rhoddi grant neu gyfraniad i sefydliad trydydd sector tuag at eu costau craidd;

- Egwyddorion Comisiynu - Disgwylir i gyrff cyhoeddus weithredu egwyddorion comisiynu arfer orau a disgwylir i sefydliadau trydydd sector ymgysylltu'n llawn gyda'r prosesau comisiynu;

- Taliadau - bydd y Cyngor yn gwneud taliadau ar eu hôl hi. Dylai anfonebau gynnwys manylion digonol i egluro pwrpas y fanyleb a dylid cyflwyno gwybodaeth fonitro hefyd fel sy'n berthnasol i'r cytundeb cyllido. Mewn achosion eithriadol, bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am daliadau ymlaen llaw yn ysgrifenedig lle mae tystiolaeth gref o'r angen. Ni fyddir yn gwneud taliadau ymlaen llaw ond mewn amgylchiadau eithriadol;

- Triniaeth deg a rhesymol - bydd y Cyngor yn anelu at weithredu argymhelliad Llywodraeth Cymru i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol sef y dylid, fel arfer dda, ymgynghori gyda'r trydydd sector am gyfnod o ddeuddeg wythnos a rhoddi cyfnod rhybudd o ddeuddeg wythnos cyn gwneud unrhyw newidiadau neu benderfyniadau polisi a allai arwain at dynnu'n ôl cyllid neu leihau arno'n sylweddol;

- Dull ar y cyd o fonitro, gwerthuso ac archwilio - rhaid i'r holl bartneriaid ymgysylltu'n llawn yn y prosesau hanfodol hyn;

- Nodi arbenigedd a datblygu gallu i gyflawni - Mae Llywodraeth Cymru, yr un modd â CSYM, yn cydnabod bod amrediad eang o wybodaeth a sgiliau yn y Trydydd Sector ar draws Cymru. Mae'r trydydd sector yn gallu, ac mae yn gwneud cyfraniad mawr i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Cyngor ac at wella bywydau pobl Cymru a chymunedau Ynys Môn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sefydliadau trydydd sector angen cymorth er mwyn sicrhau bod eu potensial yn cael ei wireddu'n llawn a bod arfer dda yn cael ei rhannu'n eang. Mae'r cyngor yn cydnabod natur a sgiliau amrywiol a gynigir gan oddeutu 700 o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithredu ym Môn a gall y trydydd sector chwarae rôl allweddol o ran trawsnewid gwasanaethau'r cyngor;

- Amrywiaeth – mae'r cyngor yn cydnabod anghenion amrywiol pobl a chymunedau, a'r amrediad o wasanaethau i gwrdd â'r anghenion hyn. Mae'r côd ymarfer hefyd yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a dylai cyfleon cyfartal fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y trydydd sector;

- Arloesedd – mae'r côd ymarfer yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector a chyda phartneriaid eraill i nodi arferion arloesol sy'n gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn Ynys Môn yn arbennig felly fel rhan o agenda Trawsnewid Ynys Môn;

- Llywodraethiant da a diwydrwydd dyladwy - mae'r egwyddor hon yn arwyddo'r angen am lywodraethiant da a diwydrwydd daladwy gan y Cyngor a sefydliadau Trydydd Sector fel ei gilydd;

- Monitro'r cod ymarfer ar gyfer cyllido'r trydydd sector – mae'r egwyddor derfynol yn ymwneud â chydymffurfio gyda'r côd. Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu prosesau monitro cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cod. Mae fersiwn Ynys Môn o'r côd yn darparu

canllawiau gweithdrefnol a fydd yn cefnogi'r broses o gydymffurfio gyda chôd Llywodraeth Cymru.

Source: Welsh Government, Code of Practice for Funding the Third Sector, 2014 p25-35 (adapted)

## Nodau'r Compact

Trwy'r Compact, byddwn yn datblygu'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector yn Ynys Môn trwy ein cynorthwyo i:-

- Gyfathrebu yn well gyda'n gilydd;
- Deall a pharchu barn y naill a'r llall;
- Gweithio gyda'n gilydd yn fwy effeithiol i gefnogi pobl Ynys Môn ac i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd.

Rydym yn rhannu nod o ddarparu gwasanaethau o safon i bobl Ynys Môn. Rydym yn cydnabod bod gwerth ychwanegol mewn cydweithio mewn partneriaeth tuag at amcanion a nodau cyffredin. Mae gweithredu gwirfoddol ac ymgysylltiad cymunedol yn rhan hanfodol o gymdeithas gynhwysol a democrataidd a gall ychwanegu gwerth at ansawdd bywyd yn Ynys Môn. Cydnabyddir bod y trydydd sector yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Ynys Môn. Dylid parchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau a'r amrywiaeth rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Mae gan y naill sector a'r llall ei gyfrifoldebau a'i gyfyngiadau. Bydd y budd ehangach i Ynys Môn a'i dinasyddion yn ffocws allweddol ar gyfer ein gwaith partneriaeth. Hon fydd yr ystyriaeth bwysicaf un a bydd yn cael blaenoriaeth dros raglenni unigol yn ystod ein gwaith partneriaeth gyda'n gilydd.

Dylai'r berthynas rhwng y sectorau fod yn agored ac yn barchus a dangos ymddiriedaeth. Dylai pob sector geisio rhagoriaeth, mynediad cyfartal a chroesawu egwyddorion datblygu cynaliadwy. Pan fyddant yn gweithio gyda'i gilydd dylai pob sector gael yr un sylw a pharch. Mae gan sefydliadau ym mhob sector yr hawl i gyfrannu at faterion sydd yn cael effaith arnynt a'u herio.

## Gyda'n gilydd trwy'r Compact a'n gwaith partneriaeth byddwn yn…

- Cynorthwyo i feithrin trydydd sector ffyniannus, amrywiol ac annibynnol yn Ynys Môn gyda threfniadau cyllid a chontractio sydd yn cydymffurfio gyda'r gyfraith a gweithdrefnau ariannol;
- Hyrwyddo rheolaeth a llywodraethiant effeithiol yr awdurdod lleol a'r trydydd sector. Bydd yn sylfaen ar gyfer ymrwymiad ar y cyd i adeiladu ar gapasiti sefydliadau trydydd sector lle mae hynny'n gyson gyda chyfeiriad strategol cyffredin;
- Cynorthwyo i sicrhau bod y trydydd sector nid yn unig yn cymryd rhan mewn strwythurau cydweithio a phartneriaeth ond ei fod yn cael dylanwad gwirioneddol ar gynllunio a datblygu gwasanaethau lleol a mentrau cyhoeddus;
- Parhau i ddatblygu'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol fel cyfrwng cyswllt sydd wedi ei integreiddio gyda phrosesau gwneud penderfyniadau'r sector cyhoeddus a'r maes cynllunio ar y cyd ehangach. Bydd gan y Pwyllgor gynrychiolaeth o blith partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a'r trydydd sector;
- Annog yr holl sectorau i ddysgu o'r arferion gorau ac i geisio gwneud gwelliannau parhaus i'r modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau;
- Darparu gweithdrefn ystyrlon ac effeithlon ar gyfer datrys anghytundebau mewn ffordd adeiladol ac agored. Bydd y cyfrifoldeb ar gyfer hyn yn gorwedd gyda chorff monitro a fydd y cynnwys cynrychiolwyr o blith y partneriaid sydd yn rhan o'r Compact;
- Er yn nodi nad yw'r trydydd sector yn gorff unedol, rhagwelir y bydd yr holl gynrychiolwyr hefo'r Awdurdod priodol i ddilyn i fyny unrhyw achosion lle ymddengys bod y Compact wedi ei dorri yn eu sector eu hunain. Yn achos partneriaid sector cyhoeddus, bydd ganddynt awdurdod i geisio datrys y fath faterion ar lefel uwch os oes angen;

- Datblygu Cynllun Gweithredu a rennir i gyflawni amcanion y Compact a chynhyrchu adroddiad gwaith blynyddol i'r awdurdod lleol a Medrwn Môn i'w ddosbarthu i sefydliadau trydydd sector;
- Cynorthwyo i sicrhau cydnabyddiaeth ehangach a mwy cynaliadwy o werth cymdeithasol gwirfoddoli o ran datblygiad proffesiynol a phersonol y gwirfoddolwyr a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

## Addewidion y Partneriaid

Bydd yr awdurdod lleol a'r trydydd sector yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro'r Compact yn unol â'r weledigaeth a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt. Byddwn hefyd yn gweithredu gofynion Côd Ymarfer Ynys Môn ar Gyllido'r Trydydd Sector[iv] a'r Polisi Gwirfoddoli[v] fel y cymeradwywyd nhw gan y Pwyllgor Gwaith ar 4 Mawrth 2013. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys:-

- Mae'r partneriaid yn gwneud ymrwymiad i gynnal safonau uchel o lywodraethu ac ymddygiad ac i gwrdd â dyletswyddau adrodd ac atebolrwydd tuag at gyllidwyr a defnyddwyr;
- Anogir y partneriaid i ddatblygu safonau ansawdd sy'n briodol i'r sefydliad gan gynnwys hyrwyddo arferion gorau a chyfleoedd cyfartal mewn gweithgareddau, gwaith, rôl gwirfoddolwyr a'r ddarpariaeth o wasanaethau;
- Bydd partneriaid yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau lle bynnag y mae modd gwneud hynny a gofalwyr lle mae'n briodol wrth ddatblygu a rheoli gweithgareddau a gwasanaethau; bydd atborth a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau trwy ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y trydydd sector yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau;
- Mae'r partneriaid yn cadarnhau'r angen am godau ymarfer manwl i roi sylw i faterion allweddol fel y bydd angen a byddant yn adolygu eu gweithdrefnau a'u hamserlenni eu hunain yn wyneb unrhyw godau ymarfer;
- Bydd partneriaid yn sicrhau y bydd staff allweddol yn gallu cymryd rhan mewn trefniadau gwaith partneriaeth perthnasol i gefnogi'r compact hwn a'n partneriaid;
- Mae'r partneriaid yn cadarnhau'r angen am weithdrefnau i ddatrys anghytundebau;
- Bydd y partneriaid yn adolygu gweithrediad y Compact bob blwyddyn;
- Rhaid i'r holl bartneriaid ofyn am ganiatâd gan y swyddog enwebedig ymlaen llaw os cynigir unrhyw gyllid fel arian cyfatebol ar gyfer unrhyw ffrwd gyllido arall;
- Mae'r partneriaid yn gwneud ymrwymiad i barchu'r gyfraith a bod yn atebol iddi. Yn achos elusennau trydydd sector byddant yn glynu wrth y fframwaith cyfrifo a chanllawiau priodol eraill fel y pennwyd nhw gan y Comisiwn Elusennau.

---

[i] CSYM, 2013, Cynllun Corfforaethol 2013-17, Rhagair
[ii] CSYM, 2013, Cynllun corfforaethol 2013-2017, tud 2
[iii] Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014, Y Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector, tud 25-35
[iv] CSYM, 2015, Côd Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector
[v] IACC, 2013, Polisi Gwirfoddoli

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

IEUAN WILLIAMS
**Cynghorydd - Councillor**

Arweinydd y Cyngor Sir
Leader of the County Council

Swyddfa'r Sir - Council Offices
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 752109
ffacs / fax: (01248) 750839

E-bost: iwxau@ynysmon.gov.uk
E-mail: iwxau@anglesey.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref: IW/CB
Eich Cyf - Your Ref:

15 Mehefin/June 2015

Mr John R, Jones
Prif Swyddog
Medrwn Môn
Neuadd y Dref
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7LR

Annwyl John

**Trefn gosod y gyllideb ar gyfer 2016/17**

Ysgrifennaf at Medrwn Môn fel bodd ichi gysylltu ar ein rhan gydag aelodau'r Trydydd Sector. Rwyf yn awyddus sicrhau ein bod yn eich diweddaru o'r drefn mae'r cyngor wedi ei fabwysiadu ar gyfer 2016/17.

Mae'n fwriad gan y cyngor cychwyn yn gynt yn y drefn o osod o gyllideb gyda rhai sesiynau briffio ar gyfer Penaethiaid ac aelodau wedi eu cynnal.

Bwriedir gofyn i bob gwasanaeth, dan arweiniad y Pennaeth, adrodd pa wasanaethau a ddarperir o fewn i'r gwasanaeth ac i nodi os yw'n ofyn statudol ta peidio. Mi fydd y broses yma'n fodd i ni adnabod ein cyfrifoldebau sylfaenol a blaenoriaethau'n unol a'r Cynllun Corfforaethol.

Lle adnabyddir gwasanaeth hanfodol neu faes blaenoriaeth bydd modd ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i ddarparu gan gynnwys ystyriaethau comisiynu a phwrcasu.

Y gobaith bydd osgoi gosod targedau ar gyfer gwasanaethau gan weithredu'n unol a'n gofynion statudol a blaenoriaethau ar draws holl wasanaethau'r cyngor.

Dear John

**Arrangements for setting the budget 2016/17**

I would be grateful to you, as Medrwn Mon, for your assistance in sharing information with the Third Sector, about how the council's plans to go about setting the budget for 2016/17.

I am very keen to make sure that information is available as soon as possible. We are committed to starting the process earlier and initial briefing sessions have already taken place with Heads of Service and members.

It will be necessary for each service, led by the Head, to identify what is considered to be a statutory service and those delivering on identified corporate priorities. This process will enable us to identify our core responsibilities and priorities aligned with our Corporate Plan.

Where services are identified as essential or a priority it will be possible to determine the most effective means of provision which include consideration of commissioning and procurement intentions.

By adopting this approach we hope to avoid the introduction of financial target for services and adopt a more corporate approach considering priorities across the council's programme.

Bryn Arfon, Lôn Pant y Cydun, Tynygongl, Benllech, Ynys Môn, LL74 8UF
Ffôn / Tel:- (01248) 851070 Symudol / Mobile:- 07855 898364
Gwefan: www.ynysmon.gov.uk/ieuanwilliams - Website: www.anglesey.gov.uk/ieuanwilliams

Atodaf daenlen sy'n gosod yr amserlen a chamau gweithredu. Byddwn yn barod iawn i drefnu cyflwyniad byr ynglŷn â'r drefn yn ystod ein cyfarfod partneriaeth sydd i'w gynnal ar y 9 fed o Orffennaf.

Yn y cyfamser mae croeso i chi gysylltu â Gwen Carrington neu Gethin Morgan os am drafod ymhellach.

I attach a leaflet which outlines the steps and timeframe. I am more than happy to arrange for a presentation on this to be available at our sector meeting arranged for the 9th July.

In the meantime please do not hesitate to get in touch with either Gwen Carrington or Gethin Morgan if you want to discuss the matter further.

Yn gywir/Yours sincerely

**Ieuan Williams**
**Arweinydd y Cyngor/Council Leader**

# Proses Gosod CYLLIDEB / BUDGET Setting Process

**2015**

**Ebrill / April**

**Mai / May**

Public Scene Setting / Gosod y Cyd-destun Cyhoeddus

MANYLDER CYLLIDOL GWASANAETH & ALINIO'R CYLLIDEB DRWY GYDNABOD BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL / GWARIANT STATUDOL / ANSTATUDOL

*BUDGET BREAKDOWN HEADINGS & ALIGNMENT OF BUDGET WITH RECOGNITION OF CORPORATE PRIORITIES / STATUTORY / NON STATUTORY SPENDS*

Pwyll Gwaith / Executive (26/5) – *MTFP Update*

**Mehefin /June**

Scrwtini Corff / Scrutiny – (6/7) *Capital Weightings*

**Gorffennaf /July**

ADOLYGIADAU GWASANAETH (Two weekly over time period of 22/6 – 24/7) *SERVICE REVIEWS*

**Awst / August**

**Medi / September**

Pwyll Gwaith / Exec (21/9) – *MTFP / Capital Availability*

1. GWEITHDY DIWRNOD / *DAY WORKSHOP* – Council Business / Transformation / Resources / Planning & Pub Protection **w/c - 21/9**
2. GWEITHDY DIWRNOD / *DAY WORKSHOP* – Adults / Housing / Economic & Comm Regen **w/c – 28/9**
3. GWEITHDY DIWRNOD / *DAY WORKSHOP* – Children's / Education / Env & Tech **w/c – 5/10**
4. GWEITHDY / WORKSHOP – Cross cutting **w/c – 12/10**

Sgrwtini / Scrutiny (14/9) *Consultation process*

**Hydref / October**

**Tachwedd / November**

PWYLLGOR GWAITH – 9.11.15 – *THE EXECUTIVE (Initial budget papers by 2/11)*

**Rhagfyr / December**

SGRWTINI 16.11.15 SCRUTINY *(Initial budget proposals)*

YMGYNGHORI CYMUNEDOL – Arbedion + Gwariant Cyfalaf (15.11.15 – 31.12.15)
*COMMUNITY CONSULTATION – Savings + Capital spend*

**2016**

**Ionawr / January**

BRIFFIO AELODAU / MEMBER BRIEFING

**Chwefror / February**

SCRWTINI – 1.2.16 – SCRUTINY (Revised Budget (incl. of citizen feedback)

PWYLLGOR GWAITH - 15.2.16 – *THE EXECUTIVE (budget papers by 8/2)*

CYNGOR - 24.2.16 - *COUNCIL*

**Mawrth / March**

This page is intentionally left blank